15446 Area Schools Review HOLYWELL WELSH 07/11/2012 09:32 Page 1

Adolygiad Ysgolion Ardal

Ardal Treffynnon

Tachwedd 2012 • Ymgynghoriad ar yr opsiwn a ffefrir

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Cefndir

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori yn Ysgol Uwchradd Treffynnon ac Ysgol y Fron.

Bwriad y digwyddiadau oedd galluogi pobl i ystyried cyfres o opsiynau gyda'r nod o leihau nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Uwchradd Treffynnon, ystyried a yw ei chweched dosbarth yn hyfyw, a gwella amgylchedd dysgu Ysgol Perth y Terfyn ac Ysgol y Fron trwy ddarparu ysgol newydd.

Mae'r wybodaeth am yr ymgynghoriad a'r dogfennau cefndir a ddarparwyd bryd hynny i'w gweld ar wefan y Cyngor www.siryfflint.gov.uk/wps/portal/cymraeg/gwasanaethau.

Mynychodd Llywodraethwyr, Athrawon, Staff, Rhieni a Gofalwyr y digwyddiadau a rhoddwyd toreth o adborth i'r Cyngor. Mewn cyfarfod ddydd Mawrth 17 Gorffennaf 2012, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor ddechrau cylch pellach o ymgynghori anffurfiol ar un opsiwn a ffefrir.

Ymgynghoriad

Yn ystod cylch cyntaf yr ymgynghori yn gynharach eleni, ymrwymodd y Cynghorwyr i gynnal ail gyfnod o ymgynghori cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol ar fynd ymlaen yn ffurfiol gydag un cynnig ai peidio.

Dyma'r ail gyfnod hwnnw o ymgynghori yn awr.

Ar dudalen 10 yn y ddogfen hon mae manylion i'w gweld o ble a phryd y cynhelir y digwyddiadau ymgynghori.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn, os bydd y Cynghorwyr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r un cynnig, yna byddwn yn dod i'r cyfnod statudol. Yn ystod y cyfnod statudol, nodir manylion un cynnig yn glir a chewch un mis i gyflwyno unrhyw wrthwynebiad sydd gennych yn ysgrifenedig.



Os bydd y Cyngor yn derbyn cyn lleied ag un gwrthwynebiad yn y cyfnod statudol, yna trosglwyddir y mater i Weinidogion Cymru yn Llywodraeth Cymru, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Faint o amser a gymer hyn?

Mae'r ail gyfnod o ymgynghori ar yr opsiwn a ffefrir yn dechrau Tachwedd 2012

↓

Daw'r ail gyfnod o ymgynghori i ben 21 Rhagfyr 2012

↓

Adroddiad i Gabinet y Cyngor - Mawrth 2013

↓

Cyhoeddir Rhybudd statudol - Ebrill 2013

↓

Diwedd y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu - Mai 2013

↓

Penderfyniad gan Weinidogion Cymru - Diwedd Haf/Dechrau Hydref 2013

↓

Rhoi ar waith o bosibl o Fedi 2016 ymlaen

Yr opsiwn a ffefrir

Codi ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-16 oed ynghyd ag ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Perth y Terfyn ac Ysgol y Fron.

Byddai hyn yn golygu codi ysgol uwchradd newydd, bwrpasol, addas i'r 21ain ganrif, a fyddai'n gallu cynnwys 600 o fyfyrwyr, yn lle Ysgol Uwchradd Treffynnon.

Cynhelid cyrsiau'r chweched dosbarth mewn Canolfan Ôl-16 bwrpasol, newydd yng Nghei Connah.

Gwneir trefniadau i sicrhau parhad y ddarpariaeth i'r myfyrwyr sydd wedi cychwyn ar cyrsiau level. Disgwylir y bydd y Ganolfan Ôl-16 newydd arfaethedig yng Nghei Connah yn barod i dderbyn myfyrwyr ym Mis Medi 2016 ni fyddai Ysgol Uwchradd Treffynnon yn recriwtio myfyrwyr ôl-16 ar gyfer Medi 2016.

Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu cau Ysgol Perth y Terfyn ac Ysgol y Fron. Byddai'r ddwy ysgol yn uno i greu ysgol gynradd newydd mewn adeilad ysgol gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Treffynnon.

Byddai'r ysgolion newydd yn cael eu dylunio fel y gallant ddarparu lle a chyfleusterau a allai gael eu defnyddio gan y gymuned gyfan. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill fel Coleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndwr i ddarparu gwasanaethau gan gynnwys addysg i oedolion a chysylltiadau cryf â phob sector yn y gymuned.

Bydd angen buddsoddiad mawr i greu'r ddarpariaeth yn lle'r ysgolion presennol, a bydd yr opsiwn hwn yn un o'r buddsoddiadau cyfalaf mwyaf mewn cyfleusterau addysg yn Nhreffynnon a Sir y Fflint yn oes neb.

Un o'r allweddi i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru yw rhesymoli addysg ôl-16 a byddai hyn yn cael ei wireddu petai'r opsiwn hwn yn cael ei gymeradwyo. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn fodlon mewn egwyddor cyfrannu hanner cost adeiladu'r ysgolion newydd. Felly byddai angen i Gyngor Sir y Fflint ddarparu arian cyfatebol i'r cyfraniad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bod yn fodlon mewn egwyddor cyfrannu hanner cost adeiladu Canolfan Ôl-16 newydd yng Nghei Connah. Byddai angen i Gyngor Sir y Fflint a Choleg Glannau Dyfrdwy dalu'r hanner arall. Bydd hyn yn golygu buddsoddiad o £3m gan Goleg Glannau Dyfrdwy a chan Gyngor Sir y Fflint hefyd.

Gweledigaeth

Byddai'r opsiwn hwn yn darparu'r buddsoddiad mwyaf a mwyaf cyffrous a welwyd erioed yn Sir y Fflint.

Bydd darparu ysgol uwchradd newydd sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac a leolir ar yr un safle ag ysgol gynradd newydd sy'n ei bwydo, yn golygu ail-lansio darpariaeth addysgol yn yr ardal ac adolygu'r tair ysgol bresennol nad ydynt, am wahanol resymau, yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl.

Treffynnon fyddai'r canolbwynt ar gyfer addysg plant a phobl ifanc o 3 i 16 oed. Byddai amgylchedd dysgu hollol newydd yn y dref a fyddai'n trawsnewid y profiad o ysgol i'r dysgwyr ac i'r staff sy'n cyflwyno'r cwricwlwm. Byddai'r ysgolion hefyd yn ganolbwynt ar gyfer y gymuned leol, gan ddarparu adnodd ar gyfer addysg i oedolion ac addysg barhaus a gallai'r gymuned ddefnyddio'r adnoddau. Fel canolbwynt lleol, bydd yr ysgol yn cydweithio â'r Cyngor, colegau a darparwyr hyfforddiant lleol i ddarparu rhaglenni hyfforddiant i bobl 16-25 mlwydd oed a dysgu gydol oes, gan adeiladu ar y cryfderau presennol a'r anghenion lleol.

Byddai'r ddarpariaeth chweched dosbarth hefyd yn cael ei thrawsnewid, fel y byddai myfyrwyr yn manteisio ar Ganolfan Ôl-16 newydd gyda'r cyfleusterau diweddaraf yng Nghei Connah. Byddai hyn yn ategu at y niferoedd mawr o fyfyrwyr ôl-16 o ardal Treffynnon sydd eisoes yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Glannau Dyfrdwy. Byddai myfyrwyr yn manteisio ar adeiladau ac adnoddau newydd sbon, ynghyd â'r cwricwlwm eang y gellid ei ddarparu mewn un lleoliad. Cynigir y bydd yr ysgol newydd wedi ei gwblhau er byn Medi 2016.

Pam cynnig unrhyw newid?

Lleoedd gwag - Mae adeiladau rhai ysgolion yn rhy fawr i'r nifer o fyfyrwyr sy'n eu mynychu. Dywed Llywodraeth Cymru na ddylai ysgolion fod â mwy na 10% o leoedd gwag. Golyga hyn, os yw ysgol yn ddigon mawr i dderbyn 500 o fyfyrwyr, na ddylai llai na 450 o fyfyrwyr fod wedi cofrestru i'w mynychu.

Mae gan Ysgol Uwchradd Treffynnon 545 (Medi 12) o leoedd gwag (50.70%). Mae lle i 1075 yn yr ysgol. Golyga hyn nad yw dros 40% o adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac nid yw addasrwydd a chyflwr yr adeilad presennol yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer myfyrwyr.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn (yr arolygwyr ysgolion) a Llywodraeth Cymru i gyd yn dweud bod yn rhaid i'r Cyngor leihau'r nifer o leoedd gwag.

Byddai'r ysgol uwchradd newydd yn llai ac yn cyfateb i anghenion y gymuned yn well. Byddai ei dyluniad yn caniatáu ehangu yn y dyfodol petai angen. Disgwylir y bydd y lleihad mewn myfyrwyr oed uwchradd yn cildroi yn 2016/17 ac erbyn 2021/22 ni fydd y niferoedd ond wedi cynyddu i'r un niferoedd ag yn 2011.

Chweched dosbarth - Dywed Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i'r chweched dosbarth ddarparu o leiaf 30 o bynciau gwahanol y gall myfyrwyr ddewis o'u plith. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i ysgolion ar gyfer y chweched dosbarth. Maent yn gwneud hyn trwy ddarparu swm sefydlog o arian ar gyfer pob myfyriwr sy'n cofrestru i astudio yn ei chweched dosbarth. Po leiaf o fyfyrwyr sy'n cofrestru, lleiaf yw'r arian a gaiff yr ysgol. Mae Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor yn nodi, os yw chweched dosbarth am fod yn hyfyw y dylai gynnwys o leiaf 120 o fyfyrwyr. Nifer presennol y myfyrwyr yn y 6ed dosbarth yw 73.

Mae nifer y myfyrwyr yn y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Treffynnon yn is na'r nifer sy'n ei wneud yn hyfyw o ran cyllid ac o ran yr ystod o bynciau a gynigir. Mae hyn yn wir am y chweched dosbarth mewn rhai ysgolion eraill yn Sir y Fflint. Er bod Ysgol Uwchradd Treffynnon yn cydweithio'n dda ar hyn o bryd ag ysgolion eraill yn yr ardal i ddarparu ystod eang o bynciau ôl-16 i'r myfyrwyr eu hastudio, ni ellir cynnal cost y myfyrwyr yn teithio i leoliadau gwahanol ar gyfer gwersi gwahanol ac nid yw hyn bob amser yn darparu'r profiad dysgu gorau iddynt.

parhad...

Pam cynnig unrhyw newid? (parhad)

Byddai'r opsiwn a ffefrir yn golygu y byddai'r chweched dosbarth presennol yn Ysgol Uwchradd Treffynnon yn cau ac y byddai addysg chweched dosbarth yn cael ei darparu yn y Ganolfan Ôl-16 newydd arfaethedig yng Nghei Connah. Byddai'r Ganolfan hon yn gyd-fenter rhwng Cyngor Sir y Fflint a Choleg Glannau Dyfrdwy.

Ariennir y Ganolfan Ôl-16 ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda buddsoddiad sylweddol o dros £3m gan Goleg Glannau Dyfrdwy a hefyd gan Gyngor Sir y Fflint.

Fel y nodwyd o'r blaen bydd yr ysgol yn cydweithio â phartneriaid eraill fel Coleg Glannau Dyfrdwy, Prifysgol Glyndwr a darparwyr hyfforddiant lleol i ddarparu gwasanaethau fel addysg i oedolion ac addysg gymunedol ac i ddarparu cysylltiadau cryf â phob rhan o'r gymuned er mwyn galluogi'r ysgol newydd i ddarparu rhai elfennau o addysg a hyfforddiant ôl-16 yn Nhreffynnon.

Byddai'r Ganolfan Ôl-16 newydd yn darparu'r ystod lawn o bynciau academaidd a galwedigaethol i'r myfyrwyr ddewis o'u plith, yn yr un lleoliad.

Addysg gynradd - Nid yw'r ysgolion babanod ac iau presennol yn darparu'r amgylchedd dysgu gorau.

Mae'r ddwy ysgol bresennol ar safleoedd cyfyng. Mae'n anodd eu cyrraedd ac mae'r cyfleusterau parcio yn gyfyngedig.



Mae'r opsiwn hwn yn uno'r ysgolion cynradd presennol, gydag un corff llywodraethu ac un pennaeth. Byddai'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar yr un campws â'r ysgol uwchradd newydd arfaethedig a gallai rannu rhai o'r cyfleusterau, er enghraifft y gegin, y swyddfeydd gweinyddol, y stiwdio dawns/drama ayb.

Lleihau effeithiau andwyol unrhyw newid

Ar ôl y broses ymgynghori hon, os yw'r Cynghorwyr yn penderfynu cyflwyno'n ffurfiol yr opsiwn a ffefrir fel un cynnig ar gyfer ardal Treffynnon, gwneir trefniadau i sicrhau parhad ar gyfer myfyrwyr sy'n paratoi at gyrsiau UG ac U2.

Os bydd yr opsiwn yma yn cael ei gymeradwyo, disgwylir y bydd y ganolfan ôl-16 yn barod erbyn 2016.

Byddai myfyrwyr sydd ym mlynyddoedd 12 a 13 yn Ysgol Uwchradd Treffynnon ar adeg unrhyw newid yn cwblhau eu cyrsiau yn eu hysgol bresennol o dan y trefniadau presennol

Byddai'r ysgol yn hyrwyddo'n egnïol, fel y mae bob amser wedi gwneud, astudiaethau ôl-16 sy'n addas i anghenion a dyheadau unigol ei myfyrwyr ar gyfer y rhai sy'n mynd i flwyddyn 11 fel y gallant ddechrau dewis ble i barhau gyda'u haddysg ar ôl 16 oed.

Darperid cludiant i'r Ganolfan Ôl-16 yng Nghei Connah yn unol â pholisi Cludiant Ôl-16 Sir y Fflint.

Byddai myfyrwyr yn Ysgol Perth y Terfyn, Ysgol y Fron ac Ysgol Uwchradd Treffynnon yn aros yn eu hadeiladau presennol tra mae'r ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu. Bydd hyn yn sicrhau na tharfir ar bobl ifanc a'r staff yn fwy nag sy'n rhaid.

Bydd yr ysgol yn cydweithio'n glòs â cholegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu pecyn o addysg gymunedol leol i Dreffynnon yn ogystal â'r trefniadau trosiannol ar gyfer y Ganolfan Ôl-16.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ddweud wrthym beth yw eich barn, sef:

- gofyn cwestiynau a rhoi gwybod i ni beth yw eich barn yn y cyfarfodydd hyn
- cwblhau holiadur ar-lein yn www.siryfflint.gov.uk/wps/portal/cymraeg/gwasanaethau
- cwblhau holiadur a'i ddychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6DN; neu
- ysgrifennwch eich ymateb a'i anfon at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6DN

Daw'r ymgynghoriad i ben 21 Rhagfyr 2012.

Cyfarfodydd Ymgynghori

Lleoliad	Gwahoddiad i	Dyddiad	Amser	Math o Gyfarfod
Ysgol Uwchradd Treffynnon	*Athrawon, staff a llywodraethwyr:* *Ysgol Uwchradd Treffynnon* *Ysgol Perth y Terfyn* *Ysgol y Fron*	*22 Tach 2012*	*4.00 pm*	*Cyflwyniad ac wedyn cwestiynau ac atebion*
Ysgol Uwchradd Treffynnon	*Rhieni a gofalwyr myfyrwyr sy'n mynychu:* *Ysgol Uwchradd Treffynnon* *Ysgol Perth y Terfyn* *Ysgol y Fron* *Ysgolion cynradd yn ardal Treffynnon*	*22 Tach 2012*	*7.00 pm*	*Cyflwyniad ac wedyn cwestiynau ac atebion*

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Adolygiad Ysgolion Ardal — Tachwedd 2012

Cyn i chi ddechrau – os hoffech lenwi'r ffurflen hon ar-lein ewch i www.siryfflint.gov.uk/wps/portal/cymraeg/gwasanaethau

Ar sail yr wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac mewn dogfennau eraill sydd ar gael ar wefan y Cyngor, dywedwch wrthym eich barn am yr opsiwn a ffefrir gan y Cyngor yn eich ardal chi.

Ticiwch yr ardal sy'n berthnasol i chi

☐ Bwcle ☐ Queensferry, Shotton a Chei Connah ☐ Treffynnon

Pa mor gryf rydych yn cytuno â'r opsiwn a ffefrir yn yr ardal hon?

☐ Cytuno'n Gryf ☐ Tueddu i Gytuno ☐ Ddim yn Cytuno nag yn Anghytuno

☐ Tueddu i Anghytuno ☐ Anghytuno'n Gryf

Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo felly

.....

.....

.....

.....

.....

Amdanoch chi:

I'n helpu i ddeall beth mae gwahanol grwpiau o bobl yn ei feddwl, dywedwch wrthym ychydig amdanoch:
Nodwch eich manylion cyswllt isod *(Yn anffodus ni allwn ystyried ymatebion oni roddir manylion cyswllt, gan gynnwys eich cod post llawn.)*

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

Cod Post: .....

Ydych chi:

☐ Rhieni a Gofalwyr ☐ Athrawon ☐ Staff

☐ Llywodraethwyr ☐ Arall

Enw yr ysgol:

.....

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

15446 Area Schools Review HOLYWELL WELSH 07/11/2012 09:32 Page 12